



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Ymgynghoriad ar Reolau Safonol Rhif 12 Gwastraff Deunydd Pacio Domestig

**Rheolau safonol ar gyfer Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol**

**Awst 2014**

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am –  
6pm)

[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhychu'r  
ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan  
Cyfoeth Naturiol Cymru

ii

# Crynodeb

Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2010 ("Rheoliadau EP") yn ein caniatáu i gynnig trwyddedau safonol, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnesau, ond ar yr un pryd cynnal safonau amgylcheddol. Maent yn seiliedig ar setiau o reolau safonol y gallwn eu gweithredu'n helaeth yn Lloegr ac yng Nghymru. Mae'r rheoliadau'n cael eu datblygu trwy ddefnyddio asesiadau amgylcheddol o'r risg mae'r gweithgaredd yn ei pheri.

Mae datblygu'r rheolau'n cymryd cryn amser, adnoddau a gwaith ymgynghori, ond unwaith maent ar waith maent yn gwneud y broses o wneud ceisiadau, a phenderfyniadau yn eu cylch, yn gymharol hawdd. Mae hyn oherwydd nad oes angen asesiad risg sy'n benodol i'r safle.

Dyma'r 12fed ymgynghoriad ar setiau o reolau safonol. Rydym yn cynnig ychwanegu codau gwastraff Pennod 15 ynglŷn â derbyn gwastraff deunydd pacio domestig.

Hoffem glywed eich safbwyntiau ar y cynnig i ychwanegu codau gwastraff newydd at un neu fwy o'r rheolau safonol canlynol:

- SRP 2008No12: Safle mwynder gwastraff domestig nad yw'n beryglus
- SRP 2008No13: Safle mwynder gwastraff domestig nad yw'n beryglus a gwastraff domestig peryglus
- SRP 2008No14: Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau
- SRP 2008No15: Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau (ac eithrio deunyddiau adeiladu)

Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r rheolau safonau newydd, ynghyd â manylion y broses gwneud cais.

# Cynnwys

## **Crynodeb iii**

<b>1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn</b>	<b>1</b>
<b>2 Trwyddedau safonol – sut maent yn gweithio</b>	<b>2</b>
<b>3. Setiau o reolau ac asesiadau risg arfaethedig</b>	<b>5</b>
<b>4 Cwestiynau ymgynghori</b>	<b>6</b>
<b>5 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn</b>	<b>7</b>

# 1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae hon yn ddogfen esboniadol sy'n rhoi amlinelliad o'r dogfennau rydym yn ymgynghori yn eu cylch, a throsolwg o'r broses drwyddedu safonol. Ei nod yw eich helpu i'w deall ac i wneud sylwadau arnynt.

## 1.1 Yr hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn caniatáu inni ddiwygio rheolau safonol, er mwyn bodloni unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n cael effaith arnynt. Rydym yn gofyn am eich safbwyntiau ynglŷn â ph'un a yw'r setiau diwygiedig o reolau'n briodol ar gyfer rheoli'r gweithgareddau hyn.

Yn bennaf, mae'r ymgynghoriad ynghylch y dogfennau canlynol:

- **Setiau o reolau safonol (gweler Adran 3 am ragor o wybodaeth):**

Mae'r rhain yn cynnwys yr holl reolau sydd eu hangen i sicrhau bod risgiau i'r amgylchedd ac iechyd dynol yn cael eu lleihau i lefel dderbyniol, ar gyfer pob un o'r gweithgareddau a restrir.

## 1.2 Yr hyn mae'r ymgynghoriad hwn yn ei olygu ichi

Rydym yn credu y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb penodol i'r canlynol:

**Gweithredwyr, cymdeithasau masnach, ffermwyr a busnesau:** Dyma'ch cyfle i sicrhau bod y rheolau'n gweithio ichi a'ch diwydiant, ond hefyd yn darparu'r amddiffyniad angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd dynol. Hoffem glywed unrhyw argymhellion sydd gennych ynglŷn â'r defnydd o'r rheolau cyfredol, ac ar gyfer unrhyw setiau eraill o reolau.

**Rheoleiddwyr eraill, y cyhoedd, grwpiau cymunedol a sefydliadau anllywodraethol a chanddynt ddiddordeb mewn materion amgylcheddol:** Dyma'ch cyfle i sicrhau bod y rheolau'n gweithio er mwyn darparu'r amddiffyniad angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd dynol, ond ar yr un pryd yn ddefnyddiol i'r diwydiant.

# 2 Trwyddedau safonol – sut maent yn gweithio

## 2.2 Beth yw trwydded safonol?

Mae **trwyddedau safonol** yn cynnwys un amod, sy'n cyfeirio at set (neu setiau) o reolau safonol mae'n rhaid i weithredwr gydymffurfio â nhw. Mae'r rheolau safonol yn diffinio'r gweithgareddau mae gweithredwr yn gallu eu cynnal, ac yn nodi cyfyngiadau angenrheidiol ar y gweithgareddau hynny, megis terfynau ar allyriadau, neu'r math o wastraff neu ddeunyddiau crai y gellir eu derbyn ar y safle. Mae rheolau safonol yn cael eu cyhoeddi ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus. Dyma'r 12fed ymgynghoriad o'r fath.

Gall unrhyw weithredwr sydd am gynnal gweithgaredd penodol edrych ar y rheolau safonol, ac os yw'n gallu cydymffurfio â nhw, mae'n bosibl y byddant yn penderfynu gwneud cais am drwydded safonol. Rydym yn gallu dyroddi'r drwydded yn gyflymach ac yn rhatach am nad oes rhaid inni wneud penderfyniadau ynglŷn â thrwydded sy'n benodol i'r safle. Mae'n rhaid i weithredwr nad yw'n gallu bodloni gofynion y rheolau safonol wneud cais am **drwydded i'r pwrpas** a rhoi'r wybodaeth ychwanegol inni. Mae'n cymryd rhagor o amser i ddyroddi trwydded i'r pwrpas, oherwydd ei bod yn rhaid inni gynnal asesiad manylach o'r cais, a phenderfynu a ddylid cynnwys amodau sy'n benodol i'r safle, a chynnal proses ymgynghori yn unol â'n datganiad cyfranogiad cyhoeddus.<sup>1</sup>

Nid oes hawl i apelio yn erbyn y rheolau sydd mewn trwydded safonol oherwydd bod gwneud cais am drwydded safonol yn wirfoddol. Os yw gweithredwr am newid y ffordd mae'n gweithio fel y mae'n dod y tu allan i gwmpas rheolau safonol, neu oherwydd ei fod yn teimlo nad yw'r drwydded safonol bellach yn gweithio ar gyfer ei weithrediad penodol, mae'n rhaid gwneud cais i newid y drwydded i un i'r pwrpas.

Rhaid i weithredwr wneud cais am drwydded i'r pwrpas ar gyfer unrhyw weithgareddau nad yw'r rheolau safonol yn eu cynnwys. Fel arfer, mae effaith amgylcheddol bosibl y gweithgareddau hyn yn uwch, neu mae angen mesurau rheoli mwy cymhleth na gweithrediadau y gellir defnyddio rheolau safonol ar eu cyfer.

Ni ellir dyroddi Trwyddedau Rheolau Safonol ond lle mai un person cyfreithiol yn unig yw gweithredwr y cyfleuster a reoleiddir. Diffinnir y term 'Gweithredwr' yn Rheoliad 7 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol fel y person sy'n rheoli'r gwaith o weithredu cyfleuster a reoleiddir. Os nad yw cyfleuster a reoleiddir wedi dechrau gweithredu, y person a fydd yn ei reoli pan fydd yn cael ei weithredu a fydd y gweithredwr.

Y prif fater wrth benderfynu a yw rhywun yn weithredwr cyfleusterau a reoleiddir yw a oes ganddo'r awdurdod a'r gallu i reoli ei weithrediadau. Rhaid iddo ddangos bod ganddo'r awdurdod a'r gallu i sicrhau y cydymffurfir â'r drwydded amgylcheddol.

---

<sup>1</sup>Gweithio gyda'n gilydd: your role in our environmental permitting decision making

Wrth asesu a oes gan weithredwr (neu weithredwr arfaethedig) yr awdurdod a'r gallu, rydym yn ystyried y ffactorau canlynol a ffactorau eraill.

A oes gan y gweithredwr/gweithredwr arfaethedig yr awdurdod a'r gallu i wneud y canlynol:

- 1) Rheoli gweithrediadau'r safle trwy reoli gweithrediadau peiriannau o ddydd i ddydd, gan gynnwys dull a chyflymder gweithrediadau
- 2) Sicrhau y cydymffurfir ag amodau'r drwydded yn effeithiol
- 3) Penderfynu pa staff sy'n gwneud swyddi allweddol, a chael gwared ar staff analluog
- 4) Gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiad a phenderfyniadau ariannol eraill sy'n effeithio ar berfformiad y cyfleuster
- 5) Sicrhau bod gweithgareddau a reoleiddir yn cael eu rheoli mewn ffordd addas mewn argyfwng.

Gall perchennog safle barhau i fod y gweithredwr a deiliad y drwydded lle mae'n gosod contract ar gyfer gweithgareddau ar safle, ond ei fod yn gallu parhau i fod yn gyfrifol ac i gynnig digon o oruchwyliaeth.

## 2.2 Beth yw rheolau safonol?

Pan fyddwn yn datblygu setiau o **reolau safonol**, rydym yn cynnig un asesiad sengl o risg ar gyfer gweithgaredd sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd. Mae hyn yn ein galluogi i ddiffinio'r terfynau risg y gellir defnyddio'r rheolau ynddynt. Mae'r terfynau hyn yn cynnwys nifer o gyfyngiadau megis maint, lleoliad a mesurau rheoli gweithredol. Y cyfyngiadau fydd y rhai sydd eu hangen i alluogi set gyson o reoliadau er mwyn lleihau'r risg i lefel dderbyniol. Byddai'r rheolau'r un peth ar gyfer pob gweithredwr sy'n cynnal y gweithgaredd penodol hwnnw, ni waeth beth yw'r lleoliad. Mae rheoliadau ac asesiadau risg yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw, er mwyn i weithredwyr a'r cyhoedd wybod yn union pa fesurau rheoli a fydd yn berthnasol i weithgaredd arfaethedig.

Pan fyddwn yn datblygu'r terfynau risg ar gyfer pob set o reolau safonol, rhaid inni amddiffyn ansawdd amgylcheddol rhai derbynyddion sensitif penodol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rheolau safonol yn cynnwys rheol sy'n nodi na ddylid cynnal y gweithgaredd o fewn pellter penodol o fathau penodol o safleoedd gwarchod natur, megis safleoedd Ewropeaidd.<sup>2</sup>

Ni fydd y rheolau ar gyfer rhai gweithrediadau yn caniatáu cynnal gweithgaredd o fewn pellter penodol i gwrs dŵr, neu barth amddiffyn tarddiad dŵr daear. Bydd yn rhaid i

---

<sup>2</sup>Ardal Cadwraeth Arbennig neu ddarpar Ardal Cadwraeth Arbennig, ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig yn Lloegr a Chymru. At ddibenion rheolau safonol, ystyrir safle Ramsar yn safle Ewropeaidd.

weithredwyr wirio a yw eu gweithrediad yn cydymffurfio â'r rheolau cyn gwneud cais. Os oes newid i'r amgylchiadau lleol ar ôl i'r drwydded gael ei dyroddi, megis nad yw'r gweithrediad bellach yn cydymffurfio â'r rheolau safonol (er enghraifft, os dynodir safle cadwraeth o fewn y pellter sgrinio dynodedig), mae'n bosib y bydd yn rhaid i'r gweithredwr uwchraddio lefelau o amddiffyniad, neu wneud cais am drwydded i'r pwrpas.

Rydym wedi seilio'r rhan fwyaf o'r rheolau ar yr amcanion mae angen eu cyflawni. Maent yn nodi'r **hyn** rydym am i weithredwyr ei gyflawni, ond nid ydynt yn dweud wrthynt **sut** i'w gyflawni. Dyna eu cyfrifoldeb nhw. Nid yw'r dull hwn yn newydd, ac roedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod cyfundrefnau blaenorol megis caniatadau gollwng ansawdd dŵr, trwyddedu rheoli gwastraff, atal a rheoli llygredd, a rheoli sylweddau ymbelydrol. Rhoddir cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i gydymffurfio â'r rheolau rydym wedi eu cyhoeddi eisoes yn **'Sut i gydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol'**, sydd ar gael ar wefan GOV.UK.



# 3. Setiau o reolau ac asesiadau risg arfaethedig

## 3.1 Diwygiadau i setiau o reolau sy'n bodoli eisoes: SR2008 Rhif 12, SR2008 Rhif 13, SR2008 Rhif 14 ac SR 2008 Rhif 15

Mae codau gwastraff yn peri problemau ar gyfer rhai o'n set gyfredol ni o drwyddedau rheolau safonol ynglŷn â derbyn gwastraff deunydd pacio domestig. Mae gwastraff deunydd pacio nad yw'n beryglus yn derbyn cod o dan Bennod 15 01 01 i 15 01 09 Rhestr Ewropeaidd o Wastraffau, ac fel arfer mae'r mathau hyn o wastraff yn cael eu derbyn yn helaeth gan safleoedd mwynder gwastraff domestig a chyfleusterau ailgylchu deunyddiau. Fodd bynnag, nid yw'r Rheolau Safonol mae'r safleoedd hynny'n cael eu trwyddedu odanynt yn cynnwys y codau gwastraff Pennod 15 perthnasol ar hyn o bryd.

Mae'r risg mae gwastraff deunydd pacio'n ei pheri i'r amgylchedd yn ei hanfod yr un peth â gwastraff nad yw'n ddeunydd pacio o'r un math, sy'n cael ei gynnwys yn y setiau presennol o reolau safonol. O'r herwydd, rydym yn diwygio'r setiau canlynol o reolau safonol i gynnwys codau Pennod 15, heb yr angen i adolygu'r asesiad risg gwreiddiol ar gyfer y setiau hyn o reolau.

- SRP 2008No12: Safle mwynder gwastraff domestig nad yw'n beryglus
- SRP 2008No13: Safle mwynder gwastraff domestig nad yw'n beryglus a gwastraff domestig peryglus
- SRP 2008No14: Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau
- SRP 2008No15: Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau (dim deunyddiau adeiladu)

Ni fydd cost gyfredol y drwydded hon yn cael ei newid.

## 4 Cwestiynau ymgynghori

Yr ymgynghoriad hwn yw'ch cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r setiau nesaf o reolau safonol a'r diwygiadau arfaethedig. Dylent gael eu cyhoeddi yng diwedd o 2016

Byddwn yn croesawu eich adborth yn benodol ar y cwestiynau isod:

**Cwestiwn un:** A ydych yn cytuno â'r codau gwastraff newydd arfaethedig rydym wedi eu hamlinellu yn Adran 3 yr ymgynghoriad hwn?

**Cwestiwn dau:** Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw safbwyntiau neu sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion arfaethedig hyn nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn y cwestiwn blaenorol.

# 5 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## 5.1 Dyddiadau pwysig

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg tan 23 Rhagfyr 2016

## 5.2 Sut i ymateb

Cewch chi weld y dogfennau ymgynghori a'r cwestiynau ar-lein yn [www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru). Os hoffech ofyn i fersiwn argraffedig o'r ddogfen gael ei phostio atoch, cysylltwch â'n canolfan gyswilt cwsmeriaid trwy e-bost, ffôn neu bost:

E-bost: [generalenquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:generalenquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
Ffôn: 0300 065 3000  
Post: Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria,  
Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP.

Cewch chi gyflwyno eich ymateb trwy e-bost neu lythyr. Cwblhewch ac anfonwch eich ffurflen ymateb i'r cyfeiriad uchod erbyn 23 Rhagfyr 2016.

## 5.3 At ba ddiben y bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio?

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i lywio cynigion i Lywodraeth Cymru. Bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad hwn yn gweld yr holl ymatebion yn eu cyfanrwydd.

## 5.4 Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth chi

Trwy gydol yr ymgynghoriad, rydym yn gwneud yr holl sylwadau (ar wahân i wybodaeth bersonol) ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys sylwadau a gafwyd ar-lein, trwy'r post a ffacs, oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol. Dim ond enwau sefydliadau sy'n ymateb a fydd yn cael eu cyhoeddi, nid enwau unigolion.

Os ydych yn ymateb ar-lein neu'n rhoi cyfeiriad e-bost, fe fydd eich ymateb yn cael ei gydnabod. Ar ôl i'r ymgynghoriad gau, bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Byddwn yn cysylltu â chi er mwyn eich hysbysu pan fydd hwn ar gael. Byddwch hefyd yn cael eich hysbysu am unrhyw ymgynghoriadau ynglŷn â basnau afon oni bai eich bod yn nodi fel arall.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol inni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych wedi gofyn i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid inni roi crynodeb ohono beth bynnag.



